

CYPE(5)-23-20 - Papur i'w nodi 3



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Lynne Neagle AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1SN

30 Medi 2020

Annwyl Lynne

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 23 Medi ac am y cwestiynau ychwanegol. Nodir ein hymateb yn yr atodiad isod.

Yn gywir

A handwritten signature in blue ink that reads 'Meilyr Rowlands'.

**Meilyr Rowlands**

Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru

---

Estyn, Llys Angor/Anchor Court, Heol Keen/Keen Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 5JW

Ffôn/Telephone 02920 446446

ymholiadau@estyn.llyw.cymru • enquiries@estyn.gov.wales

www.estyn.llyw.cymru • www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a  
Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill  
iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English  
and Welsh. Correspondence received in either  
language will be given equal priority.

## Atodiad

### **BIL CWRICWLWM AC ASESU: Y GYMRAEG**

**A allwch chi rannu unrhyw fanylion pellach o ran eich awgrym? Er enghraifft, a allwch chi gadarnhau p'un a ydych yn awgrymu na ddylai Saesneg fod yn elfen orfodol cyn 7 oed, a bod yr ysgol neu'r awdurdod lleol yn gallu dewis p'un ai i'w addysgu neu beidio cyn yr oed hwn? A fydddech chi'n awgrymu bod y Gymraeg yn elfen orfodol o 3 oed? A allai fod unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r ateb amgen hwn?**

Mae consensws cyffredinol ynghylch pwysigrwydd trochi Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar, yn enwedig os yw dyheadau'r polisi iaith Gymraeg cenedlaethol i'w cyflawni. Mae ymdeimlad cyffredinol y gallai'r ddeddfwriaeth arfaethedig gymell rhai ysgolion yn anfwriadol i beidio ag optio allan o Saesneg gorfodol. Yn y sesiwn dystiolaeth, awgrymais y gallai'r ddwy iaith fod yn orfodol o 7 oed ac y gallai ysgolion neu awdurdodau gael dewis rhwng Cymraeg a Saesneg cyn yr oed hwn. Bwriad y cynnig amgen hwn oedd hyrwyddo trafodaeth a dangos y gellir dirnad atebion deddfwriaethol gwahanol, ac ar ôl hynny mae cynigion amgen pellach wedi'u gwneud. Yr hyn sydd gan y cynigion amgen yn gyffredin yw nad yw Saesneg yn orfodol i blant dan 7 oed mewn ysgolion lle defnyddir Cymraeg ar gyfer trochi. Nid ydym yn rhagweld canlyniadau anfwriadol gyda'r awgrym yma, a chaiff effaith gyfwerth â'r cynnig optio allan arfaethedig. Nid ydym yn ffafrio unrhyw rai o'r opsiynau o'r math hwn, a theimlwn y dylent gael eu harchwilio ymhellach.

### **BIL CWRICWLWM AC ASESU: CYLLIDO**

**A allwch chi sicrhau'r Pwyllgor, yng ngolau'r datganiad uchod, eich bod yn hyderus bod darpariaethau'r Bil yn fforddiadwy o safbwynt Estyn?**

Mae Estyn yn hyderus fod darpariaeth y Bil yn fforddiadwy o'n safbwynt ni. Rydym wedi gweithio gyda swyddogion ac wedi cyfrannu at yr asesiad effaith rheoleiddiol. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, eglurais pam mae'n anodd cyfri cost y cyfryw waith yn union. Fodd bynnag, mae gwaith arolygu statudol a gwaith thematig, a nodir drwy'r llythyr cylch gwaith blynyddol, yn darparu digon o gyfle i ni fonitro datblygiadau'r cwricwlwm, ac mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ystyried y cyllid sydd ei angen ar Estyn i gyflawni'r swyddogaethau hyn yn effeithiol. Un o'r argymhellion yn yr adroddiad annibynnol 'Arolygiaeth Dysgu' (2018) oedd y dylai trefniadau cyllido Estyn gael eu hadolygu i alluogi cynllunio tymor hwy ac i gydnabod goblygiadau o ran adnoddau weithgareddau ychwanegol sy'n gysylltiedig â diwygio addysg.